WG55492 ISBN 978-1-80853-540-6

ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

GWNEUD PENDERFYNIADAU GWELL A THECACH

Dechrau arni

1. **Swyddog Arweiniol**

   Tom Wharf

2. **A ydych chi wedi darllen y Canllawiau ar gyfer cwblhau'r asesiad hwn?**

   Ydw

3. **A ydych chi wedi cwblhau'r e-ddysgu hanfodol (ar gael o fis Medi) ar asesu'r effeithiau ar gydraddoldeb?**

   Nac ydw

4. **Dirprwy Gyfarwyddwr / Uwch-swyddog Cyfrifol**

   (Rhowch enw'r Dirprwy Gyfarwyddwr/Uwch-swyddog Cyfrifol sy'n awdurdodi'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Peidiwch â gadael hwn yn wag)

   Natalie Grohmann / Alex Walters

A. Y cynnig

1. **Teitl y cynnig** (Gweler Adrannau 3 a 4 o'r Canllawiau).

   Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol

2. **Beth yw nod eich cynnig?**

Asesodd yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb hwn effaith y canllawiau diweddaraf ar gyfer 2026 ar gerdded, olwynio a beicio i wella hygyrchedd a chynnwys buddsoddiadau teithio llesol, gan gefnogi manteision hirdymor ar raddfa'r boblogaeth ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig.

3. **Pryd dechreuodd y gwaith ar y cynnig?** (Gweler Adran 5 o'r Canllawiau).

   Ionawr 2025

4. **Ar ba sefydliadau, grwpiau neu gymunedau y mae'n debygol o effeithio?**

   Bydd y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn cael eu heffeithio gan y canllawiau hyn.

   Rhestrwch y rhanddeiliaid. Peidiwch â gadael hwn yn wag

5. **A ydych chi wedi cofrestru eich Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar iShare?** (Gweler Adran 6 o'r Canllawiau).

   Rhaid ichi gofrestru eich Asesiad Effaith Cydraddoldeb pan fyddwch chi'n dechrau datblygu eich cynnig.

   Ydw

Nodyn yr awdur, *paratowyd yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb hwn yn Hydref 2025 i gefnogi'r ymgynghoriad drafft wedi'i ddiweddaru, fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig. Gwnaed rhai diweddariadau i'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb /Asesiad Effaith Integredig ar ôl yr ymgynghoriad, i adlewyrchu'r newidiadau i'r diwygiad diweddaraf yn 2026, a wnaed ar ôl yr ymgynghoriad. Yna mae'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb hwn wedi'i gopïo i dempled fformat dogfen newydd i'w gyhoeddi ar wahân, heb ailwampio ychwanegol, i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol rwymol Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb.*

ATODIAD B. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Crynodeb

Roedd yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn asesu effaith y canllawiau technegol diweddaraf yng Nghanllawiau 2026 ar gerdded, olwyno a beicio i wella hygyrchedd a chynhwysiant buddsoddiadau mewn teithio llesol, gan gefnogi manteision hirdymor ar raddfa'r boblogaeth ar draws y nodweddion gwarchodedig i gyd.

Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn asesu effaith y diweddariadau rhwng y Canllawiau arfaethedig ar gyfer 2026 a'r Canllawiau presennol ar gyfer 2021. Fodd bynnag, nid yw'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ailasesu effaith bwriad strategol Llwybr Newydd (Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021) i gynyddu pa mor gyffredin yw teithio llesol, gan fod y penderfyniad hwnnw eisoes wedi cael ei wneud. Fodd bynnag, mae'n cynnig cyfle i adlewyrchu sut gall gwell canllawiau dylunio strydoedd liniaru unrhyw niwed i bobl â nodweddion gwarchodedig ac i wneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer gwelliannau.

Mae Canllawiau 2026 yn cynnig llai o effaith ar bobl anabl a gwell hygyrchedd a chynhwysiant o'i gymharu â chadw Canllawiau 2021 fel y canllawiau presennol.

Mae angen gwneud rhai penderfyniadau anodd, gan gydbwyso effeithiau negyddol amgylcheddau stryd newydd a gwahanol ar rai grwpiau â'r potensial ar gyfer manteision hirdymor i'r boblogaeth. Er enghraifft, mae defnyddwyr sydd ag amhariad ar eu golwg yn dweud eu bod yn fwy pryderus oherwydd y cynnydd mewn pa mor gyffredin yw llwybrau beiciau wrth safleoedd bysiau. Ar ôl pwyso a mesur y dystiolaeth hon, ac wrth ystyried y canlyniadau tymor hwy ar iechyd, symudedd, lle a chynaliadwyedd, mae manteision y newidiadau a gynigir yng Nghanllawiau 2026 ar raddfa'r boblogaeth yn gorbwyso'r niwed. Yn ogystal â chamau i liniaru unrhyw effeithiau negyddol gweddilliol yn sgil Canllawiau 2026, mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cynnig ymchwil a chydweithio parhaus ochr yn ochr â chynllun monitro a gwerthuso parhaus.

Gan gydnabod cynulleidfa dechnegol y ddogfen hon, mae'r fersiwn diwygiedig yn darparu gwell hygyrchedd a dyluniad gwybodaeth drwy wella dolenni mewnol a darparu gwell cyngor ar gymhwysedd Elfennau Dylunio. Mae'r Log Penderfyniadau Dylunio newydd yn Atodiad L yn sicrhau tryloywder o ran dewisiadau wrth ddylunio prosiect, ac mae gwelliannau i ddyletswyddau monitro yn tracio canlyniadau cydraddoldeb. Bydd y diwygiadau hyn yn helpu i sicrhau bod dylunwyr yn fwy gwybodus ac atebol ynghylch effeithiau eu penderfyniadau ar gydraddoldeb.

EFFEITHIAU CADARNHAOL ALLWEDDOL AR GYDRADDOLDEB

Gan ymateb i adborth gan ddefnyddwyr, yn enwedig gan grwpiau sy'n cynrychioli pobl anabl, mae'r diweddariad hwn yn pwysleisio'r angen i wahanu pobl sy'n cerdded oddi wrth bobl sy'n beicio, ac i leihau'r cynnydd o lwybrau cyd-ddefnyddio fel dewis cyntaf gan ddylunwyr. Mae'n cynnwys siart llif newydd (Ffigur 11.1: Dewis Dylunio Cysylltiadau y Map Rhwydwaith Teithio Llesol) gyda chysylltiadau i'r Elfennau Dylunio er mwyn helpu i dywys dylunwyr i ffwrdd rhag defnyddio llwybrau cyd-ddefnyddio mewn lleoliadau amhriodol.

Mae Canllawiau 2026 yn cryfhau canlyniadau dylunio sy'n gynhwysol o ran rhywedd. Mae'r diweddariadau dylunio allweddol yn cynnwys pwysleisio pwysigrwydd diogelwch goddrychol ar gyfleusterau teithio llesol, megis Llwybrau beiciau wedi'u diogelu, troedffyrdd lletach, a mesurau gwahanu ffisegol parhaus oddi wrth draffig prysur er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynghylch diogelwch ar y ffyrdd. Mae goleuadau, llinellau gweld clir, a gwyliadwriaeth naturiol yn cael eu blaenoriaethu i wella diogelwch personol gwirioneddol a thybiedig. Mae'n cynnig ymgysylltiad cynhwysol, sy'n gofyn am ymgynghori wedi'i dargedu â menywod a merched, wedi'i gefnogi gan Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar bob cam.

Mae'r egwyddorion creu lleoedd diweddaraf bellach yn nodi gofynion ar gyfer seddi rheolaidd, toiledau hygyrch, a nodweddion sy'n addas i'r henoed ac i deuluoedd i gefnogi teithiau sy'n stopio sawl gwaith. Rhaid i gyffyrdd a chroesfannau roi blaenoriaeth i bobl sy'n cerdded, olwyno a beicio, gyda chynlluniau mwy diogel a llwybrau parhaus. Mae integreiddio â thrafnidiaeth gyhoeddus, mannau diogel i barcio beiciau, a mannau i wefru e-feiciau yn cael ei atgyfnerthu. Nod y mesurau hyn yw gwneud rhwydweithiau teithio llesol yn fwy diogel, yn fwy cynhwysol ac yn ddeniadol i fenywod a merched, gan annog mwy o bobl i fanteisio arnynt a lleihau rhwystrau.

PARHAD LLWYBR BEICIAU WRTH SAFLEOEDD BYSIAU

Bwriad yr adran ychwanegol hon o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yw cofnodi'n fanylach yr ystyriaeth a roddir i barhad llwybrau beicio wrth safleoedd bysiau. Cafodd y nodweddion hyn eu cynnwys yng Nghanllawiau 2021, ac maent yn dal i fod wedi'u cynnwys yng Nghanllawiau 2026, gydag addasiadau a mesurau lliniaru i leihau'r risg neu'r allgáu a'r niwed y gallent eu hachosi.

Cyflwyniad

Gall pobl sy'n beicio ar gyfleuster beicio ac sy'n pasio safle bws naill ai ddod ar draws pobl eraill sy'n cerdded neu'n olwyno, neu efallai bydd rhaid iddynt gymysgu â thraffig modur. Pan fydd egwyddorion craidd y Canllawiau, sef parhad, uniongyrchedd, cydlyniaeth, atyniad a diogelwch yn cael eu rhoi ar waith i integreiddio safleoedd bysiau i lwybrau beiciau ar wahân a llwybrau cyd-ddefnyddio mewn senarios yn y byd go iawn, mae'r amrywiadau ar y chwe trefniant a roddir yn Elfennau Dylunio 501-506 yn codi. Mae rhai pobl anabl wedi mynegi pryderon ynghylch rhai o'r nodweddion hyn. Mae sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anabl, yn enwedig Cŵn Tywys Cymru ac RNIB Cymru, wedi ymgysylltu â thîm Canllawiau 2026 drwy ddarparu ymchwil a thystiolaeth, yn ogystal â chyflwyno syniadau a gwerthuso mesurau lliniaru posibl i'r pryderon hyn. Mewn ymateb i bryderon a godwyd ynghylch y nodweddion hyn gan Gŵn Tywys Cymru ac RNIB Cymru, mae'r adran hon yn adrodd ar y dystiolaeth ac yn egluro'r

rhesymeg dros wneud penderfyniadau wrth ddiweddaru Canllawiau 2026 ar gyfer y nodweddion hyn.

Effeithiau ar bobl anabl

Mae ffyrdd osgoi safleoedd bysiau, esgynloriau a threfniadau tebyg yn elfennau hanfodol o rwydwaith teithio llesol cynhwysol sy'n galluogi ystod eang o bobl, gan gynnwys pobl anabl, i deithio ar feic [25]. Mae hefyd yn ofynnol iddynt greu'r amodau ar gyfer cynyddu cynhwysiant beicio o ran oedran a rhywedd (gan gynnwys yn ôl oedran a rhywedd amrywiol pobl anabl), drwy gynnig y rhwydweithiau diogel, parhaus rhagofynnol [1][2][15][38].

Mae tystiolaeth o ymchwil diweddar [2][3][4] yn dangos bod rhai dyluniadau llwybrau beiciau wrth safleoedd bysiau yn cynyddu pryder i bobl ddall a phobl sydd ag amhariad ar eu golwg. Mae defnyddwyr sydd ag amhariad ar eu golwg eisoes yn profi lefelau uwch o bryder na'r boblogaeth gyffredinol [24] ac mae cynyddu'r baich mae'r gorbryder hwn yn ei achosi yn creu effaith negyddol ar bobl sydd ag amhariad ar eu golwg. Cydnabyddir bod ychwanegu llwybrau beiciau a llwybrau cyd-ddefnyddio wrth safleoedd bysiau yn ychwanegu cymhlethdod at symudiadau yn eu cyffiniau. [2] [3]

Cydnabyddir bod beiciau'n aml yn dawelach na cheir ac y gall fod yn anodd i bobl sydd ag amhariad ar eu golwg a'u clyw sylwi arnynt.
Fodd bynnag, nodir hefyd mai'r nod polisi a dargedir yma yw disodli un cerbyd peryglus (person sy'n gyrru car preifat) â cherbyd arall sy'n llai peryglus (person ar feic) [29] [30] [42]. Mae hyn â manteision uniongyrchol a manteision thymor hwy i ganlyniadau economaidd, cymdeithasol, iechyd a llesiant ar raddfa'r boblogaeth. [1] [5] [7] [14] [38] [44]

Opsiynau a ystyriwyd ar gyfer parhad llwybr beiciau wrth safleoedd bysiau

Ystyriwyd tri opsiwn ar gyfer diweddaru Elfennau Dylunio Canllawiau Teithio Llesol ar gyfer parhad llwybr beiciau wrth safleoedd bysiau, a dim ond un sydd wedi cael ei ddewis i'w gario ymlaen. Dyma'r opsiynau;

1. **Gwneud dim byd; dim newid i'r Canllawiau ar DE 501-504**. Ni chafodd yr opsiwn hwn ei ddatblygu, gan y byddai hyn yn golygu bod y cyfle yn cael ei golli i wella a mireinio'r canllawiau ar sail ymchwil newydd a mewnbwn o ymgysylltiad cynnar â rhanddeiliaid. Disgwylir i hyn wella canlyniadau dylunio yn sylweddol.

2. **Diweddaru, gwella ac ehangu DE 501-504 ac adran 11.31 (yr opsiwn a ffefrir i'w gario ymlaen).** Mae'r opsiwn hwn yn ceisio mireinio a gwella canllawiau ar gyfer parhad llwybrau beiciau wrth safleoedd bysiau. Gan ddefnyddio dull systemau diogel, mae Canllawiau 2026 yn cynghori'n gyntaf i ddileu rhyngweithio rhwng llwybrau beiciau/safleoedd bysiau drwy gynllunio rhwydwaith. Lle nad yw hyn yn bosibl, er enghraifft mewn strydoedd siopa lleol lle mae cyflymder a llif traffig moduron yn gofyn am lwybrau beiciau, a lle mae'r galw am gludo bysiau yn gofyn am safleoedd bysiau, dylid defnyddio Elfennau Dylunio 501-504, gan roi ystyriaeth ofalus i ffactorau sy'n benodol i'r safle. Dylid eu defnyddio bob amser ar y cyd ag ymgysylltiad a chyfranogiad pobl leol, yn enwedig pobl anabl, ac ochr yn ochr ag ymyriadau i newid ymddygiad. Mae angen cofnod llawn o'r penderfyniadau yn y Log Penderfyniadau Dylunio newydd yn Atodiad L.

3. **Gwaharddiadau, seibiannau a moratoria ar un neu fwy o'r Elfennau Dylunio DE 501-504.** Ni ddatblygwyd yr opsiwn hwn gan y byddai hyn yn atal awdurdodau

lleol rhag gallu darparu cyfleusterau beicio parhaus, diogel ac ar wahân yng Nghymru, gan ei gwneud yn debygol y byddai'n amhosibl cyrraedd y targedau teithio llesol a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru [23]. Byddai hyn hefyd yn gofyn am fecanwaith arall gan y llywodraeth, gan mai dim ond un o nifer o ddogfennau canllawiau technegol perthnasol ar gyfer dylunio strydoedd yng Nghymru yw Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol. Byddai hyn hefyd yn gwyro oddi wrth normau o ran gweithrediadau, cynnal a chadw a dylunio strydoedd, gan y byddai'n arwain at ganoli atebolrwydd gwneud penderfyniadau i Lywodraeth Cymru, ac i ffwrdd oddi wrth swyddogion ac aelodau Awdurdodau Lleol [15].

Fel y nodir yn y Canllawiau Drafft ar gyfer 2026, mae'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio ac sy'n cael ei gario ymlaen yn y Canllawiau Drafft ar gyfer 2026 ar y nodweddion hyn yn cynrychioli'r dulliau a'r arferion gorau sy'n cael eu derbyn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd y ddogfen yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd i ystyried yr arferion gorau sy'n dod i'r golwg yn dilyn ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a phartneriaid perthnasol ledled y DU.

Yr opsiwn a ffefrir ar gyfer llwybrau beiciau wrth safleoedd bysiau a gymerwyd ymlaen yn y diweddariad hwn

Mae'r canllawiau diwygiedig ar y nodweddion hyn wedi'u cynnwys yn adran 11.31 o'r Canllawiau Drafft ar gyfer 2026, ac enghreifftiau dylunio 501-504 yn Atodiad G.
Y prif newidiadau cyffredinol yng Nghanllawiau 2026 sy'n effeithio ar yr holl gyfleusterau beicio wrth safleoedd bysiau yw;

- Canllawiau newydd ar alinio cyfleusterau beicio oddi wrth lwybrau bysiau lle bynnag y bo modd (11.31.3).
- Canllawiau newydd ar ymgysylltu a gorfodi pan fydd nodweddion newydd yn cael eu cyflwyno neu pan fydd nodweddion presennol yn achosi pryderon (11.31.9).
- Atgyfnerthu'r gofynion am gyfleusterau cerdded a beicio ar wahân i osgoi cyfleusterau llwybrau cyd-ddefnyddio mewn ardaloedd trefol prysurach, yn enwedig mewn perthynas â safleoedd bysiau mewn cyfleusterau beicio (11.31.12).
- Atgyfnerthu'r broses ailddyrannu gofod ar y ffordd o blaid lled ychwanegol ar gyfer safleoedd bysiau, cyfleusterau i gerddwyr a llwybrau beiciau (a restrir ym mhob Elfen Ddylunio o dan 'Ystyriaethau eraill')
- Testun newydd yn 11.31 a'r elfennau dylunio yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i fonitro arferion y DU ar gyfer gwelliannau sy'n dod i'r amlwg yn y maes hwn, megis y gwaith sydd ar y gweill gan Brian Deegan ac Active Travel England i ddatblygu adnodd asesu ansawdd llwybrau beicio ar safleoedd bysiau. Os yw'n briodol, bydd Canllawiau 2026 yn cael eu diweddaru i gyd-fynd ag arferion gorau'r DU.

Ar ôl ymgysylltu yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac yn dilyn mewnbwn gan Banel Hygyrchedd a Chynhwysiant TrC, RNIB Cymru a Chŵn Tywys Cymru, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill, mae'r Elfennau Dylunio wedi cael eu mireinio, mae dwy Elfen Ddylunio ychwanegol wedi cael eu datblygu, yn ogystal â Ffigur 11.28 newydd: Dewis dyluniad safle bws.
Ni wnaed unrhyw welliannau penodol i Elfen Ddylunio 501 (Safle bws: parhad lôn feiciau), ond gwnaed gwelliannau i Elfennau Dylunio 502, 503 a 504. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod.
Dyma'r diweddariadau i DE 502 a 503 ffyrdd osgoi safleoedd bysiau;

- Gwahanu'n llwybrau beiciau unffordd (DE 502) a llwybrau beiciau 2-ffordd (DE 503)

- Ail-enwi fel ‘Ffordd osgoi safle bws’ er mwyn osgoi amwysedd.
- Cynyddu’r lled dymunol lleiaf o 2.0m i 2.5m yng Nghanllawiau 2026.
- Gwahanol atebion wedi’u cynnwys o ran dyluniad croesfannau, gan gynnwys croesfannau â goleuadau traffig.
- Cysoni manylion yr Elfennau Dylunio â Chanllawiau diweddaraf yr Adran Drafnidiaeth ar gyfer Darparu a dylunio safleoedd bysiau symudol [57] i wella cydymffurfiad beicwyr, lleihau cyflymder pobl sy’n beicio ar hyd y nodweddion hyn a lleihau faint o ryngweithio sy’n digwydd wrth groesfan mynediad y safle bws. Mae’r rhain yn cynnwys;
    - cyflwyno pwynt ymuno dewisol ar gyfer pobl sy’n beicio ac sy’n dymuno ailymuno â thraffig y gerbytffordd;
    - potiau plannu Systemau Draenio Cynaliadwy ar ongl aflem yn wynebu traffig beiciau sy’n dod tuag atynt, a;
    - lleihau lled absoliwt lleiaf y lôn a’r croesfannau i gerddwyr.

Dyma’r diweddariadau i DE504 a 505 Esgynloriau safleoedd bysiau;

- Gwahanu’n ddau amrywiad; gyda a heb ynys esgynlawr, yn unol â Chanllawiau [57] newydd yr Adran Drafnidiaeth
- Stribedi amlinelliad trapesoidaidd sy’n gwahanu’r droedffordd oddi wrth y llwybr beiciau a’r safle bysiau.
- Palmant botymog tramffordd ar fynediad ac allanfa’r llwybr beiciau o’r esgynlawr bysiau.
- Marciau ildio ar fynediad y llwybr beiciau i’r esgynlawr bysiau.
- Cynnwys canllawiau ar balmentydd yn DE 505
- Cysoni manylion yr Elfennau Dylunio â Chanllawiau diweddaraf yr Adran Drafnidiaeth ar gyfer Darparu a dylunio safleoedd bysiau symudol [57] i wella cydymffurfiad beicwyr, lleihau cyflymder pobl sy’n beicio ar hyd y nodweddion hyn a lleihau faint o ryngweithio sy’n digwydd wrth groesfan mynediad y safle bws. Mae’r rhain yn cynnwys;
    - cyflwyno pwynt ymuno dewisol ar gyfer pobl sy’n beicio ac sy’n dymuno ailymuno â thraffig y gerbytffordd, a;
    - lleihau lled absoliwt lleiaf y lôn a’r croesfannau i gerddwyr.

Dyma’r diweddariadau i DE506 Safle bws: cyd-ddefnyddio;

- Cynyddu’r lled absoliwt lleiaf y tu ôl i gysgodfan fysiau i 2.7m.
- Gwneud penderfyniadau drwy siart llif (Ffigur G3) wedi’i ychwanegu ar gyfer cyfleusterau llwybr cyd-ddefnyddio i egluro cymhwysedd cyfyngedig cyfleusterau cyd-ddefnyddio.

Casgliadau ac argymhellion

Disgwylir y bydd y diwygiadau i Ganllawiau 2026 sy’n ymwneud â pharhad llwybrau beiciau wrth safleoedd bysiau yn cael effaith gadarnhaol yn gyffredinol i bobl anabl. Mae hyn yn cynnwys eglurder cyffyrddol gwell, cyson a chydymffurfiol ar esgynloriau

bysiau a lleihad o ran pa mor gyffredin yw llwybrau cyd-ddefnyddio wrth safleoedd bysiau mewn seilwaith newydd. Mae'n rhoi arweiniad i ddylunwyr ar welliannau eraill sy'n gymedrol, cynyddrannol, ond sy'n ymateb i ddefnyddwyr, i ddimensiynau a manylion safonol y cynllun y dylent eu rhoi ar waith mewn senarios ôl-osod yn y byd go iawn.

Cydnabyddir ei bod yn debygol y bydd rhai effeithiau negyddol parhaus yn deillio o lwybrau beiciau wrth safleoedd bysiau, gan effeithio'n bennaf ar bobl ddall a phobl sydd ag amhariad ar eu golwg drwy fwy o bryder [3], ond hefyd effeithio ar unrhyw ddefnyddwyr sy'n eu gweld yn newydd neu'n ddryslyd [2].

Nid yw Canllawiau 2026 yn god ymddygiad ar gyfer defnyddwyr ffyrdd. Adroddir bod ofnau o gael gwrthdrawiad â pherson ar gefn beic yn ffactor achosol mewn niwed a achosir i bobl ddall o ganlyniad i'r cynnydd cymdeithasol mewn seiclo [3].

O ran ymddygiad y beicwyr hynny sydd ddim yn cydymffurfio â Rheolau'r Ffordd Fawr, mae dull COM-B o ddadansoddi ymddygiad gan TrC wedi canfod bod "Cymhelliant" yn darged ar gyfer ymyrraeth ymddygiadol. Yn gyffredinol, mae gan bobl sy'n beicio mewn amgylcheddau sydd wedi'u dylunio'n dda y Galluogrwydd (brêcs, sgiliau) a'r Cyfle (hyfforddiant, dangosyddion blaenoriaeth eglur megis marciau ffordd) i reoli'r rhyngweithio â phobl sy'n cerdded yn unol â Rheolau'r Ffordd Fawr. Efallai na fydd y rhai hynny nad ydynt yn cydymffurfio yn gwerthfawrogi'r effaith sylweddol y mae eu hymddygiad yn ei chael ar bobl anabl. Rhoddir sylw i hyn yn adran 7.1 y Canllawiau, gan argymell bod awdurdodau lleol yn darparu seilwaith newydd ochr yn ochr ag ymgysylltiad wedi'i dargedu, gan gynnwys pobl anabl, defnyddwyr beiciau ac eraill, ochr yn ochr ag atgyfnerthu egwyddorion presennol Rheolau'r Ffordd Fawr a gorfodi troseddau traffig.

Nid yw'r effeithiau negyddol a nodwyd yn rhai newydd, ac mae'r newidiadau a wnaed yng Nghanllawiau 2026 yn ceisio eu lleihau. Serch hynny, mae'n rhesymol ystyried sut y gellid lliniaru'r effeithiau negyddol hyn ymhellach eto yng ngweithgareddau a ffrydiau gwaith eraill Llywodraeth Cymru.

Argymhellir bod TrC, Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru yn ystyried yr argymhellion canlynol;

- Ymchwilio a datblygu technolegau a thechnegau newydd i liniaru risgiau i ddefnyddwyr mewn senarios prysur neu gymhleth o barhad llwybr beiciau wrth safleoedd bysiau. Dylai hyn gynnwys treialon yn y fan a'r lle mewn senarios yn y byd go iawn gyda thystiolaeth o ansawdd uchel drwy raglenni monitro a gwerthuso sydd â digon o adnoddau.
- Cyhoeddiadau sain a gwelliannau eraill i weithrediadau a thechnoleg bysiau, sy'n rhybuddio teithwyr sy'n dod oddi ar y bws wrth safleoedd bysiau sydd â llwybrau beiciau.
- Ymgyrch gorfodi gan yr heddlu yn defnyddio troseddau traffig symudol sy'n bodoli eisoes ar gyfer pobl sy'n reidio beiciau mewn ffyrdd sy'n effeithio ar bobl anabl.
- Ymgyrch hysbysebu a chymdeithasol sydd wedi'i dargedu ar lefel ficro i dargedu pobl sy'n beicio ar hyn o bryd, gan adrodd stori rymus am yr effaith y mae beicio anystyriol yn ei chael ar bobl anabl.

CRYNODEB O'R ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB YN ÔL NODWEDD WARCHODEDIG

(Sylwer: mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei ddarparu mewn fformat testun agored, h.y. heb ei roi mewn tabl, er mwyn gwella hygyrchedd ac eglurder pan fydd meddalwedd darllenydd sgrin yn ei ddefnyddio. Er mai dogfen gyfeirio dechnegol at beirianwyr, dylunwyr a chynllunwyr yw Canllawiau 2026 yn bennaf, mae gofal ychwanegol wedi'i gymryd i'w gwneud yn fwy eglur i ddarllenwyr sgrin. Bwriad hyn yw gwella cynhwysiant rhanddeiliaid ac ymarferwyr sy'n ddall neu sydd ag amhariad ar eu golwg yn y broses o graffu ar y ddogfen Canllawiau 2026 ac felly ei wella'n barhaus.)

Mae'r adran hon yn crynhoi gwybodaeth a ystyriwyd gan dîm prosiect Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol 2026 mewn perthynas â grwpiau o bobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae gwella tegwch canlyniadau yn un o amcanion craidd Canllawiau 2026.

Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi'r diwygiadau, yr effeithiau posibl sy'n codi, tystiolaeth o'r effeithiau hynny a'r mesurau lliniaru a gymerwyd lle mae effeithiau o'r fath yn negyddol sy'n deillio o'r newidiadau rhwng Canllawiau 2021 a'r Canllawiau drafft ar gyfer 2026 ar gyfer pob nodwedd.

Dechreuodd proses yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ym mis Ionawr 2025, gyda'r gwaith cychwynnol o gwmpasu effeithiau posibl ar gydraddoldeb. Nododd hyn bod yna botensial bach i fach iawn ar gyfer effaith ar Briodas a Phartneriaeth Sifil, Hil a Chrefydd. Nododd bod yna botensial sylweddol ar gyfer effaith ar Anabledd, Rhyw, Oedran, Beichiogrwydd a Mamolaeth. Disgwylir y bydd yna rywfaint o effaith gadarnhaol ar ddiogelwch y cyhoedd mewn perthynas ag Ailbennu Rhywedd a Chyfeiriadedd Rhywiol.

Blaenoriaeth y cynllun gweithredu a rheoli'r prosiect hwn oedd ymgysylltiad cynnar â rhanddeiliaid, gan fanteisio i'r eithaf ar y cyfle i gael eu pryderon a'u dealltwriaeth i lywio'r dadansoddiad cyd-destunol a'r dulliau technegol a ddefnyddir i ddiweddaru'r ddogfen ganllawiau dylunio strydoedd hon.

Ffactorau allgáu hanesyddol a strwythurol sylweddol wrth ddylunio strydoedd ar gyfer nodweddion gwarchodedig penodol

Ar gyfer rhai nodweddion gwarchodedig - ond nid pob un - mae tystiolaeth gref o allgáu hanesyddol a strwythurol sylweddol o ran mynediad i strydoedd a chynhwysiant yn y broses o ddylunio strydoedd.

Er enghraifft; ers gwawr gwareiddiad, mae strydoedd a phriffyrdd yn darparu man cyhoeddus parhaus i blant chwarae yn anffurfiol. Yn ystod y 120 mlynedd diwethaf, mae'r gofod hwn wedi ildio i gael ei ddefnyddio ar gyfer symud a storio ceir preifat, heb ymgynghori â phlant na'u cynnwys yn y penderfyniad hwnnw, nac wrth ddatblygu mesurau lliniaru.

Mae allgáu hanesyddol o'r fath yn fframio ble rydym ni nawr, a maint yr her y mae pobl â rhai nodweddion yn ei hwynebu o ganlyniad. Darperir y rhain o dan is-benawdau ychwanegol fel rhan o'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y nodweddion gwarchodedig canlynol.

- Oedran (plant)
- Anabledd – pobl sydd ag amhariad ar eu golwg
- Anabledd – pobl ag amhariad symudedd

- Rhyw
- Beichiogrwydd a mamolaeth

OEDRAN – PLANT A PHOBL IFANC

Amcangyfrifon o'r boblogaeth yng Nghymru

Ffynhonnell [18] dyddiedig 2023
0-4 oed = 150k
5-15 oed = 398k
16-24 oed = 339k
Cyfanswm = 887k

Sylwer: Bydd pob person yn y dyfodol yn blentyn.

Ffactorau allgáu hanesyddol a strwythurol sylweddol wrth ddylunio strydoedd

- nid yw plant yn cael pleidleisio mewn etholiadau, ac nid oes ganddynt unrhyw ddylanwad uniongyrchol o ran dal y llywodraeth i gyfrif am y gwasanaethau y maent yn eu derbyn.
- mae plant (yn enwedig bechgyn) yn fwy tebygol na chyfartaledd y DU o gael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol fel cerddwyr. [29]
- mae'r cynnydd yng ngoruchafiaeth y cerbyd modur drwy'r ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar ddeg wedi cael effaith negyddol ar symudedd annibynnol plant a'u cyfleoedd i chwarae. [28]

Diwygiadau perthnasol yng Nghanllawiau 2026

- wedi'i integreiddio â Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012 (P. 3.8, 8.7) ac yn hyrwyddo 'chwarae ar y ffordd'.
- wedi'i ailddatgan a'i ehangu gyda Chynlluniau Teithio Llesol Ysgolion (P. 4.2.9) dwysedd rhwyd a mynediad uniongyrchol i bob ysgol (P. 4.7.6-4.7.7).
- safonau dylunio gyda gwell gwahanu a blaenoriaeth i bobl sy'n cerdded, yn olwyno neu'n beicio (Penodau 11 a 12, ac Atodiad G) yn blaenoriaethu parhad cyfleusterau cerdded, olwyno a beicio diogel ar wahân, gan ymateb i bryderon am ddiogelwch plant [1] a'u bod yn fwy agored i niwed wrth gerdded, olwyno neu feicio [29] [30].

Effaith y diweddariad i'r Canllawiau (cadarnhaol/negyddol)

(cadarnhaol) gwell cyfle i symud yn annibynnol drwy ddarparu llwybrau cerdded, olwyno a beicio uniongyrchol a pharhaus.

(cadarnhaol) gwell parhad o ran cyfleusterau beicio diogel ar wahân.

(cadarnhaol) hirdymor: cysylltiad rhwng mwy o deithio llesol yn gyffredinol a'r gallu i ganolbwyntio'n well yn yr ystafell ddosbarth.

(cadarnhaol) hirdymor: cynnydd o ran cyrhaeddiad addysgol a llesiant plant. Mae manteision iechyd, llesiant a chyrhaeddiad yn para'n hir ac yn hirdymor.

Rhesymeg a thystiolaeth ategol

- galw gan y cyhoedd a phryderon ynghylch diogelwch [1] [38]
- mae gwella symudedd annibynnol i blant yn galw ar awdurdodau lleol i allu adeiladu cyfleusterau beicio diogel a pharhaus [15]
- mae cyfraddau marwolaethau uwch gan ddamweiniau bysiau/beiciau na'r rhan fwyaf o wrthdrawiadau eraill rhwng dau gerbyd sy'n ymwneud â defnyddiwr beic [12]

- mae cydberthynas rhwng symudedd plant â llesiant a chyrhaeddiad addysgol [16] a chanolbwyntio [17] [19]

OEDRAN – POBL HŶN

Amcangyfrifon o'r boblogaeth yng Nghymru

65-74 oed = 351k
75-85 oed = 245k
Oedran >85 = 86k
Cyfanswm = 682k
Data 2023 [18]

Nodyn 1: Rhagwelir y bydd nifer y bobl sy'n 65 oed neu hŷn yng Nghymru yn cynyddu 19.6% i 806,000 rhwng 2022 a 2032 ac yn cyrraedd dros filiwn erbyn 2060. [18]

Nodyn 2: Mae cydberthynas cadarn rhwng oedran â pha mor gyffredin yw anabledd, gan gynnwys afiechydon amrywiol sy'n gysylltiedig ag oedran, amhariad ar y synhwyrau ac amhariad ar symudedd. Er enghraifft; mae un o bob pump o bobl sy'n 75 oed a hŷn yn byw gyda cholli golwg, ac o ran pobl sy'n 90 oed, mae hyn yn un o bob dau. [46]

Diwygiadau perthnasol yng Nghanllawiau 2026

- diwygio fformatau ymgynghori'r prosiect ym Mhennod 5 i gynnwys fformat hawdd ei ddeall a fformat y gellir eu defnyddio gan ddarllenydd sgrin.
- pennod 9 wedi'i ehangu i gynnwys seddi, mannau gorffwys, cymhorthion symud, ac arwynebau sy'n ystyriol o ddementia.
- safonau dylunio gyda gwell gwahanu a blaenoriaeth i bobl sy'n cerdded, yn olwyno neu'n beicio (Penodau 11 a 12, ac Atodiad G) yn blaenoriaethu parhad cyfleusterau cerdded, olwyno a beicio diogel ar wahân, gan ymateb i bryderon am bobl hŷn [1] a'u bod yn fwy agored i niwed wrth gerdded neu feicio [29] [30] [38].
- mae pennod 14 yn atgyfnerthu'r gofynion ar gyfer mynediad i doiledau a chyfleusterau newid.
- rhagdybiaeth yn erbyn rheolaethau mynediad newydd, a chanllawiau wedi'u mireinio ar leoli bolardiau.

Effaith y diweddariad i'r Canllawiau (cadarnhaol/negyddol)

(cadarnhaol) mwy o seddi a chyfleoedd i orffwys
(cadarnhaol) gwell symudedd wrth ddefnyddio cyfleusterau cerdded a beicio
(cadarnhaol) Arwynebau llyfnach
(negyddol) gorbryder a achosir gan newidiadau i amgylchedd y stryd a chyflwyno nodweddion ac ymddygiadau anghyfarwydd (e.e. safleoedd bysiau ar lwybrau beiciau; mwy o blant yn cerdded, yn olwyno, yn eistedd ac yn beicio, gan gynnwys defnyddio seddi ar gyfer cynulliadau cymdeithasol a beicio ar y gerbytffordd).

Rhesymeg a thystiolaeth ategol

- gwell aliniad â chanllawiau symudedd cynhwysol [22]
- canllawiau ar arwynebau sy'n ystyried dementia [20] [21]
- at ei gilydd, mae manteision hirdymor Canllawiau 2026 ar gyfer y boblogaeth (newid yn yr hinsawdd, yr economi, iechyd ac ati) yn gorbwyso effeithiau negyddol ar y grŵp hwn.

Mesurau lliniaru i effeithiau negyddol o fewn Canllawiau 2026

- canllawiau cliriach ar ymgysylltu, gan gynnwys darparu dogfennau ar sut yr ymgynghorir â phobl hŷn ar lefel prosiect. Mae hyn yn cynnwys ystyried allgáu digidol ar gyfer pobl hŷn sydd efallai ddim yn teimlo bod ymgysylltu ar-lein yn hygyrch nac yn gynhwysol.
- gofynion newydd i ystyried demograffeg iechyd y cyhoedd wrth gynllunio rhwydweithiau a blaenoriaethu prosiectau.
- gofynion diwygiedig o ran cynnal a chadw a graeanu llwybrau cerdded/olwyno.

ANABLEDD – AMHARIAD AR Y GOLWG

Amcangyfrifon o'r boblogaeth yng Nghymru

- Pobl sydd wedi colli eu golwg yng Nghymru:
  Rhannol ddall = 97k
  Dallineb = 15k
  Cyfanswm = 112k
- [46] data 2023

  Amcangyfrifir y bydd cyfanswm y bobl sydd wedi colli eu golwg yng Nghymru yn dyblu erbyn 2050.

Ffactorau allgáu hanesyddol a strwythurol sylweddol wrth ddylunio strydoedd

Mae pobl sydd ag amhariad ar eu golwg (gan gynnwys pobl ddall) yn wynebu rhai o'r heriau mwyaf sylweddol sy'n gysylltiedig ag amgylchedd stryd sy'n anablu, gan leihau'n sylweddol eu gallu i symud yn annibynnol a'u mynediad at wasanaethau. [3] [32]

Yn aml, nid yw pobl ag amhariad ar eu golwg yn cael gyrru car ac maent yn dibynnu'n llwyr ar gerdded, olwyno a beicio i symud o gwmpas yn lleol yn annibynnol, yn ogystal ag ar gysylltiadau â dulliau trafnidiaeth gyhoeddus.
Mae gan bobl sydd ag amhariad ar eu golwg hanes o gael eu gwahanu'n systematig yn y DU. [31]

Mae modelau hanesyddol o anabledd, megis modelau meddygol a diffygiol o anabledd, wedi llywio arferion dylunio strydoedd sydd wedi allgáu pobl drwy eu dyluniad. Roedd y dulliau hyn yn gyffredin yn ystod datblygiad seilwaith ceir yr 20fed ganrif, gan adael llawer o hen seilwaith strydoedd yn anhygyrch i bobl ddall a phobl ag amhariad ar eu golwg (er enghraifft, cyffyrdd-T heb balmentydd botymog). [32] [49]

Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn nodi gwahaniaethu pwysig rhwng 'amhariad' ac 'anabledd'. Mae'n cydnabod bod pobl ag amhariadau yn cael eu hanalluogi gan rwystrau sy'n bodoli'n gyffredin mewn cymdeithas. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys agweddau negyddol a rhwystrau corfforol a sefydliadol a all atal pobl anabl rhag cael eu cynnwys a rhag cymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd. Cafodd y dull hwn o ymdrin ag anabledd ei ddatblygu gan bobl anabl ac fe'i mabwysiadwyd yn ffurfiol gan Lywodraeth Cymru yn 2002.

Diwygiadau perthnasol yng Nghanllawiau 2026

- siartiau llif llwybrau cyd-ddefnyddio a chanllawiau ychwanegol i leihau'r defnydd o blastig untro mewn ardaloedd trefol prysur.
- gwell eglurder o ran dulliau cyfunol o drin mynedfeydd i ffyrdd ymyl, sydd bellach yn cynnwys palmentydd botymog sydd â chyferbynnedd lliw.
- mireinio'r canllawiau ar safleoedd bysiau ar lwybrau beiciau, lleihau cyffredinrwydd a thynnu sylw at yr angen i ymgysylltu â rhanddeiliaid, ymateb i bryderon pobl anabl fel defnyddwyr, yn enwedig pobl sydd ag amhariad ar eu golwg.
- ni fu unrhyw newid i fesurau gorfodi o ran parcio ar y palmant fel rhan o'r diweddariad hwn.

Effaith y Canllawiau diwygiedig (cadarnhaol/negyddol)

(negyddol) pryder parhaus i bobl anabl, yn enwedig pobl ag amhariad ar eu golwg, a achosir gan gynnydd o ran pa mor gyffredin yw llwybrau beicio, gan gynnwys parhad llwybrau beicio mewn safleoedd bysiau.
(cadarnhaol) lleihau'r cynnydd o gyfleusterau llwybrau cyd-ddefnyddio sy'n achosi anghysur ac yn allgáu llawer o ddefnyddwyr sydd ag amhariad ar eu golwg
(cadarnhaol) patrymau botymog cyson ac eglur ar ffyrdd ymyl

Rhesymeg a thystiolaeth ategol

- mwy o bryder ymysg rhai cerddwyr/defnyddwyr cadeiriau olwyn sydd ag amhariad ar eu golwg wrth esgynloriau/ffyrdd osgoi bysiau. [3] [49]
- mae'r risg y bydd cerddwyr yn cael eu hanafu mewn lleoliadau lle mae llwybrau beiciau'n parhau drwy safleoedd bysiau yn isel iawn. [4]
- mae'r gyfradd ddamweiniau angheuol ac anafiadau difrifol sy'n ymwneud â pherson yn beicio a bws yn uwch na'r rhan fwyaf o wrthdrawiadau eraill sy'n ymwneud â beicwyr [4] [12]
- bernir bod buddion hirdymor ar raddfa'r boblogaeth yn sgil cynyddu teithio llesol [23] yn gorbwyso'r anfanteision a ddangosir [3] i'r grŵp hwn.
- gellir gosod llwybrau cyd-ddefnyddio yn llai aml fel rhan o gyflawni'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol gyda chanlyniadau hygyrchedd gwell, ond er mwyn galluogi hyn, bydd angen grymuso swyddogion Awdurdodau Lleol i ailddyrannu lle ar gyfer storio a symud ceir, yn unol â'r hierarchaeth trafnidiaeth. [23]
- cysoni â dulliau gweithredu ledled y DU drwy weithgor esgynloriau bysiau a chyfeirio at Ganllawiau'r Adran Drafnidiaeth [57]

Mesurau lliniaru i effeithiau negyddol o fewn Canllawiau 2025

- darparu canllawiau a gwelliannau ychwanegol sy'n ymwneud â safleoedd bysiau ar lwybrau beiciau yn adran 11.31, ac adrannau DE 501-504
- log penderfyniadau dylunio yn rhoi atebolrwydd ychwanegol ar ddylunwyr
- sicrhau bod palmentydd botymog yn gyson wrth groesfannau ffyrdd ymyl ac osgoi arwynebau cyd-ddefnyddio amwys. [6][2][3]
- Gwnaeth TrC gais llwyddiannus i Ganolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru gynnal Adolygiad Cyflym annibynnol o Dystiolaeth (sydd i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2025) sy'n edrych yn systematig ac yn gyfannol ar dystiolaeth o rwystrau a hwyluswyr a brofir gan bobl anabl mewn ymateb i newidiadau yn y seilwaith Teithio Llesol, a'r effaith ar eu hygyrchedd
- sawl fersiwn o Gyfres 500 yr Elfennau Dylunio ar y cyd ag RNIB Cymru, Cŵn Tywys Cymru a Phanel Hygyrchedd a Chynhwysiant TrC, er bod sesiynau wedi'u hwyluso yn cefnogi modelau cyffyrddadwy.

ANABLEDD - AMHARIADAU SYMUDEDD AC OLWYNWYR (GAN GYNNWYS BEICIAU WEDI'U HADDASU)

Amcangyfrifon o'r boblogaeth yng Nghymru

Cyfanswm = 268,000 (sicrwydd isel)
Mae amcangyfrifon poblogaeth yn amrywio ac nid ydynt wedi'u diffinio'n dda yn yr ystadegau sydd ar gael, ond drwy gyfuno data cyfrifiad 2021 ag amcangyfrifon o ba mor gyffredin yw amhariad symudedd yn [26] (data 2024) ceir amcangyfrif o 268,000.

Ffactorau allgáu hanesyddol a strwythurol sylweddol wrth ddylunio strydoedd

